# RHAGLEN HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR 2020-2021

Fersiwn 1.0

## Cyflwyniad

Mae Gwasanaethau Cymorth i Lywodraethwyr yn cynnig sesiynau hyfforddiant a datblygu i lywodraethwyr a chlercod ar draws rhanbarth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys modiwlau gorfodol ac amrywiaeth o destunau eraill sy'n berthnasol i rôl y llywodraethwr.

Os yw hyfforddiant yn ymwneud yn benodol â pholisïau Wrecsam, bydd llefydd yn cael eu dyrannu i lywodraethwyr Wrecsam yn unig.

Os ydych chi fel corff llywodraethu angen hyfforddiant neu ddatblygu ar bwnc penodol sydd hen ei gynnwys (clwstwr neu'n ganolog) neu os hoffech awgrymu unrhyw destunau i gael eu cynnwys yn y dyfodol, cysylltwch ag Amanda Lowndes Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr i drafod ar governorsupport@wrexham.gov.uk neu 01978 295451.

Os fydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn Saesneg, bydd cyfieithiad Cymraeg ar y pryd ar gael. Hefyd, gall gyfleusterau dolen glyw fod ar gael. Sicrhewch eich bod yn dynodi wrth archebu os hoffech unrhyw un o'r gwasanaethau hyn er mwyn i ni wneud y trefniadau priodol.

## Diweddariad Covid-19

Gan nad yw cyngor Llywodraeth Cymru wedi newid, cawn ein hannog i gwrdd ag eraill ar-lein am y tro, felly rydym wedi penderfynu darparu ein holl sesiynau ar-lein a bydd cyfranogwyr angen mynediad at ddyfais digidol (e.e. cyfrifiadur, gliniadur, llechen, ffôn symudol) a mynediad at y we.

# MODIWLAU GORFODOL

**Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddiant) (Cymru) 2013 yn gosod dyletswydd statudol ar Lywodraethwyr a Chlercod y Corff Llywodraethu i gwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau.**

| ENW'R MODIWL | PWY DDYLAI GWBLHAU'R MODIWL |
|---|---|
| **Hyfforddiant Sefydlu** | Rhaid i lywodraethwyr sydd newydd gael eu penodi fynychu hyfforddiant sefydlu o fewn blwyddyn i'w penodiad. |
| **Hyfforddiant Deall Data Ysgol** | Rhaid i holl lywodraethwr fynychu hyfforddiant data o fewn blwyddyn i'w penodiad neu ailbenodiad. Dewiswch un o'r tri dewis:<br>Deall Data – Ysgolion Cynradd<br>Deall Data – Ysgolion Uwchradd<br>Deall Data – Ysgolion Arbennig |
| **Hyfforddiant Cadeiryddion y Llywodraethwyr** | Rhaid i holl gadeiryddion y llywodraethwyr sydd newydd gael eu penodi fynychu'r hyfforddiant o fewn chwe mis i'w penodiad yn y swydd. |
| **Hyfforddiant Clercod y Cyrff Llywodraethu** | Rhaid i holl glercod Cyrff Llywodraethu sydd newydd gael eu penodi fynychu hyfforddiant o fewn deuddeg mis i'w penodiad. |

Mae penaethiaid wedi'u heithrio rhag cwblhau'r hyfforddiant gorfodol, fodd bynnag, mae croeso i Benaethiaid sydd newydd gael eu penodi fynychu'r hyfforddiant, er mwyn cael:

- Gwell dealltwriaeth o rôl y llywodraethwyr yn yr hyfforddiant sefydlu
- Dealltwriaeth o'r hyfforddiant data a sut i gyflwyno data i'r llywodraethwyr
- Dealltwriaeth o rôl y cadeirydd a sut i ddatblygu perthynas gweithio a chefnogi da gyda'r cadeirydd.

## CWBLHAU'R MODIWLAU AR-LEIN

E-Ddysgu i Lywodraethwyr Ysgol yng Nghymru
E-Learning for School Governors in Wales

https://e-learning-governors-in-wales.org.uk/

Cysylltwch â'ch Clerc a fydd yn trefnu i chi dderbyn enw defnyddiwr a chyfrinair. Bob tro y byddwch yn mynd ar y safle wedi hynny, bydd eich gwaith yn cael ei gofnodi ac ar ôl cwblhau, byddwch yn derbyn tystysgrif yn eich enw.

Gallwch hefyd wneud cais am gyfrif drwy gysylltu â: governortraining@wrexham.gov.uk

# MODIWLAU DEWISOL A ARGYMHELLIR

Er mwyn archebu lle ar y sesiynau canlynol, cysylltwch â:
Gwasanaethau Cefnogi Llywodraethwyr **01978 295450** neu anfonwch e-bost at **governortraining@wrexham.gov.uk**

| ENW'R MODIWL | SUT | PRYD |
|---|---|---|
| **Rheoli Perfformiad y Pennaeth*** (Dechreuol a Gloywi) | Gweminar Zoom | 14 Hydref 2020 6pm - 7.30pm |
| Mae'r modiwl hwn wedi'i dargedu tuag at aelodau sydd newydd gael eu penodi ar y Pwyllgor Rheoli Perfformiad y Pennaeth, neu ar gyfer aelodau presennol sydd angen hyfforddiant gloywi 3 blynedd. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cwynion** (Dechreuol a Gloywi) | E-Ddysgu | https://e-learning-governors-in-wales.org.uk/ |
| Mae'r modiwl hwn wedi'i dargedu tuag at aelodau sydd newydd gael eu penodi ar y Pwyllgor Cwynion, neu unrhyw lywodraethwr arall sydd â diddordeb. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Corff Llywodraethu Effeithiol (NEWYDD)** (Dechreuol) | E-Ddysgu | https://e-learning-governors-in-wales.org.uk/ |
| Mae'r modiwl hwn wedi'i dargedu tuag at holl lywodraethwyr, ac yn darparu canllawiau pellach ar sut all lywodraethwyr gyflawni eu Rôl Strategol. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Deall Cyllidebau Ysgol a Rheolaeth Ariannol*** (Dechreuol a Gloywi) | Gweminar Zoom | 4 Chwefror 2021 6pm - 8pm |
| Mae'r modiwl hwn wedi'i dargedu tuag at aelodau sydd newydd gael eu penodi ar y Pwyllgor Cyllid, Penaethiaid ac unrhyw lywodraethwr arall sydd â diddordeb. | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyllideb Lym - Ar gyfer Ysgolion sy'n Wynebu Anawsterau Ariannol*** (Dechreuol) | Gweminar Zoom | Mae'r sesiwn hwn ar gael i gyrff llywodraethu unigol ar gais. |
| Mae'r modiwl hwn wedi'i dargedu tuag at aelodau sydd newydd gael eu penodi ar y Pwyllgor Cyllid, Penaethiaid ac unrhyw lywodraethwr neu glerc arall sydd â diddordeb. | | |

Rydym yn parhau i gysylltu gyda Swyddogion yr Awdurdodau Lleol er mwyn trefnu testunau eraill a byddwn yn darparu amserlen ddiwygiedig ar ôl derbyn cadarnhad.

* = Hyfforddiant ar gael i Lywodraethwyr Wrecsam yn unig.

Bydd yr holl sesiynau hyfforddi yn cael eu darparu yn Saesneg oni bai y nodir yn wahanol.

# RHWYDWEITHIAU

| RHWYDWAITH | SUT | PRYD |
|---|---|---|
| **Cymdeithas Cadeiryddion Llywodraethwyr Wrecsam** | Zoom | 9 Tachwedd 2020<br>22 Chwefror 2021<br>7 Mehefin 2021<br>(Holl sesiynau 6pm – 8pm) |
| Cyfle i dderbyn a thrafod gwybodaeth yn ymwneud â llywodraethu ysgolion ar lefel Genedlaethol a lleol. Os ydych yn dymuno awgrymu eitem ar gyfer y rhaglen, cysylltwch ag Amanda.Lowndes@Wrexham.gov.uk | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Fforwm Clercod Cyrff Llywodraethu Wrecsam** | Zoom | 11 Rhagfyr 2020 (Cynllunio ar gyfer y Gwanwyn)<br>11 Chwefror 2021 (Datblygu)<br>18 Mawrth 2021 (Cynllunio ar gyfer yr Haf)<br>20 Mai 2021 (Datblygu)<br>1 Gorffennaf 2021 (Cynllunio ar gyfer yr Hydref)<br>(Holl sesiynau 1pm – 3pm) |
| Nod y fforwm yw helpu Clercod i gynllunio ar gyfer y tymor gan fod ganddynt rôl allweddol i atgoffa cyrff llywodraethu am weithgareddau llywodraethu sydd angen ffocws, hefyd mae'n rhoi cyfle i rwydweithio a rhannu syniadau ac arfer orau. | | |

# MODIWLAU DEWISOL

Gall y modiwlau canlynol gael eu trefnu yn seiliedig ar y galw, felly cysylltwch â governortraining@wrexham.gov.uk i fynegi diddordeb mewn mynychu a chael eich rhoi ar y rhestr aros.

## DARPERIR GAN GWE

| | |
|---|---|
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Cymorth ac arweiniad o ran sut fydd y bil diwygio ADY newydd yn effeithio ysgolion a llywodraethwyr |
| **Cwricwlwm Cymru** | Mae GWE yn y broses o ddatblygu cyfres o hyfforddiant ar gyfer arweinwyr, ymarferwyr a llywodraethwyr i gefnogi ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm. |
| **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** | Trosolwg o'r fframwaith y dylai llywodraethwyr fod yn gyfarwydd ag er mwyn cytuno ar eu gweledigaeth strategol ar gyfer cymhwysedd digidol trawsgwricwlaidd a sut i drosi hyn i mewn i arfer. Mae'n canolbwyntio ar y 4 thema o Ddinasyddiaeth, Rhyngweithio a Cydweithio, Cynhyrchu a Data a Meddwl Cyfrifiadurol a ellir eu cymhwyso i ystod eang o bynciau a senarios. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Bydd y cyflwyniad hwn yn cynorthwyo llywodraethwyr i fod yn gyfarwydd â'r Cyfnod Sylfaen a'u cyflwyno i arferion da yn y maes hwn a dangos sut mae'n gweithio yn y dosbarth. |
| **Arweinyddiaeth** | Cyfle i rannu gwybodaeth mewn perthynas â Rhaglenni Dysgu Arweinyddiaeth Proffesiynol y mae GwE yn cynnig i ymarferwyr ar draws y rhanbarth. Mae'r holl raglenni yn adlewyrchu Llwybr Datblygu Gyrfa Cenedlaethol a mynd i'r afael â datblygiadau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. |
| **Safonau Addysgu Proffesiynol** | Trosolwg o'r disgwyliadau o arferion effeithiol yn erbyn y safonau cenedlaethol a chefnogi datblygiad proffesiynol. |
| **Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu** | Bydd cyflwyniad GwE yn sicrhau bod llywodraethwyr yn fwy gwybodus am y ffordd mae ysgolion yng Nghymru yn datblygu i fod yn Sefydliadau Dysgu. |
| **Shirley Clarke** | Mae'r sesiwn hwn yn egluro addysgeg ac egwyddorion asesu ffurfiannol y rhaglen Shirley Clarke, sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion yn dod yn ddysgwyr annibynnol a hyderus. |
| **Cymraeg** | Canllawiau gan GwE i godi ymwybyddiaeth llywodraethwyr am y ffordd mae'r rhanbarth yn cyfrannu tuag at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'u cyfrifoldebau fel llywodraethwyr. |

# HYFFORDDIANT ALLANOL DEWISOL AR GAEL

## GOVERNORS CYMRU SERVICES

| ENW'R MODIWL | SUT | PRYD |
|---|---|---|
| **GDPR yn y gweithle: canllaw ymarferol ar gyfer llywodraethwyr** | Zoom | 9 Hydref 2020<br>11am-1pm |

Mae'r digwyddiad hwn am ddim i danysgrifwyr Gwasanaethau Governors Cymru neu £15+TAW ar gyfer y rhai sydd heb danysgrifio.
Os hoffech fynychu, anfonwch e-bost at support@governors.cymru

Llywodraeth Cymru Welsh Government | ADDYSG CYMRU EDUCATION WALES | Hwb®

Mae'r rhestrau canlynol yn rhan o'r Adnodd Cadw'n Ddiogel Ar-lein ar gyfer Llywodraethwyr ac ar gael ar lwyfan Hwb. Gofynnwch eich ysgol am gyfrif defnyddiwr os nad oes gennych un.

Cliciwch ar Enw'r Modiwl i fynd i'r dudalen gwe berthnasol.

| ENW'R MODIWL | DISGRIFIAD |
|---|---|
| Cadw Dysgwyr yn Ddiogel | Modiwl 1 – Beth mae Diogelu yn ei olygu<br>Modiwl 2 – Rôl a Chyfrifoldebau<br>Modiwl 3 – Astudiaethau Achos<br>Modiwl 4 – Diogelwch Ar-lein<br>Modiwl 5 – Diogelwch Ar-lein |
| Rhannu Delweddau (Llywodraethwyr) | Rhestr chwarae ar gyfer llywodraethwyr sy'n mynd i'r afael â rhannu delweddau |
| Ymddygiad Moesegol Ar-lein | Nod y rhestr chwarae hon yw i fynd i'r afael â beth yw ymddygiad moesegol ar-lein a sut mae dyluniad technoleg yn dylanwadu ar y ffordd rydym yn ymddwyn ar-lein. Byddwn yn edrych ar y ffordd y gall yr ysgol gefnogi staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr i ymddwyn yn foesegol a 'gwneud y peth iawn' ar-lein. |
| Unigrwydd, Teimlo'n Ynysig a'r Cyfryngau Cymdeithasol | Yn y rhestr chwarae hon byddwn yn mynd i'r afael â phrofiadau plant a phobl ifanc o unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Byddwn yn edrych ar y ffordd mae cyfryngau cymdeithasol yn effeithio ar hyn a sut i ddefnyddio technoleg mewn ffordd iach a chadarnhaol. |
| Twyll, Arian a Throsedd Ar-lein | Bwriad y rhestr chwarae hon yw edrych ar fathau o droseddau ar-lein. Mae hefyd yn rhoi strategaethau ar gyfer adnabod sgamiau ac ymddygiad twyllodrus ar-lein a ffyrdd y gall aelodau o gymuned yr ysgol gadw eu gwybodaeth a'u harian yn ddiogel. |
| Casineb Ar-lein | Mae'r rhestr chwarae hon yn trafod beth ydy iaith casineb ar-lein, pam mae pobl yn lledaenu casineb ar-lein, sut mae iaith casineb yn gwneud i bobl deimlo a beth allwn ni ei wneud i'w herio mewn ffordd ddiogel. |

| | |
|---|---|
| Cynnwys anghyfreithlon ac annymunol | Mae'r rhestr chwarae hon yn archwilio'r gwahanol fathau o gynnwys anghyfreithlon a sarhaus. Mae'n archwilio effaith edrych ar y math hwn o gynnwys, sut i ymateb, a strategaethau i leihau'r perygl o niwed i blant a phobl ifanc. |
| Cydsyniad Ar-lein | Mae'r rhestr chwarae hon yn edrych ar faterion a risgiau sy'n gysylltiedig â gofyn am gydsyniad ar-lein, ei roi a'i dderbyn. Mae'n cynnig awgrymiadau a strategaethau i gynorthwyo plant/pobl ifanc i reoli eu perthnasoedd, preifatrwydd a'u data ar-lein. |
| Amser o flaen sgrin, technoleg ac iechyd meddwl | Yn y rhestr chwarae hon byddwch yn edrych ar sut y mae'r defnydd o dechnoleg yn effeithio ar eich iechyd a'ch lles. Byddwch hefyd yn cael rhai awgrymiadau i'ch helpu i gadw'n iach wrth ddefnyddio technoleg. |
| Camwybodaeth | Yn y rhestr chwarae hon, byddwn yn edrych ar beth yw camwybodaeth, y risgiau y gall hynny eu peri i ddysgwyr a'r ffyrdd gall ysgolion a cholegau arfogi'r dysgwyr â sgiliau cywir i werthuso'r hyn maen nhw'n ei weld a'i glywed ar-lein. |
| Enw Da neu Ddrwg Ar-lein | Nod y rhestr chwarae hon ydy edrych ar effeithiau cadarnhaol a negyddol cael enw da neu ddrwg ar-lein, a dysgu ffyrdd o'i reoli'n effeithiol. |
| Preifatrwydd a Data Ar-lein | Mae'r rhestr chwarae hon yn cynnwys canllawiau ac awgrymiadau ar rannu data personol, sicrhau eich dyfeisiau a diogelu eich gwybodaeth ar-lein. |
| Darlledu'n Fyw ar y Cyfryngau Cymdeithasol | Nod y rhestr chwarae hon ydy edrych ar beth ydy ffrydio byw, pa risgiau a chyfleoedd a ddaw i blant a phobl ifanc yn sgil ffrydio byw a sut mae hyrwyddo defnyddio hynny'n gadarnhaol ac yn ddiogel. |
| Iechyd Meddwl a'r Rhyngrwyd | Nod y rhestr chwarae hon ydy meddwl am effaith gadarnhaol a negyddol profiadau ar-lein plant a phobl ifanc a sut gallai'r rhain effeithio ar eu hiechyd meddwl a beth ddylai ysgolion fod yn ei wneud i'w cefnogi. |
| Effaith insta: Delwedd o'r corff a hunan-barch mewn oes ddigidol | Nod y rhestr chwarae hon ydy edrych ar effaith y rhyngrwyd ar ddelwedd o'r corff a hunan-barch. |
| Treulio gormod o amser o flaen sgrin? | Mae'r rhestr chwarae hon yn cyflwyno'r testun amser o flaen sgrin ac yn darparu syniadau defnyddiol. |
| Ffrindiau ar-lein | Mae'r sleidiau hyn yn ceisio eich helpu i feddwl yn ofalus am eich ffrindiau ar-lein a'r bobl rydych chi mewn cysylltiad â nhw ar-lein. |
| Diogelwch digidol yn ystod COVID-19: Diogelu rhag dylanwadau niweidiol ar-lein | Mae'r canllaw hwn gan y Swyddfa Gartref yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am ddiogelu plant a phobl ifanc rhag dylanwadau niweidiol ar-lein, gan gynnwys sut i adnabod achosion o ecsbloetio a'r hyn y gallwch chi ei wneud i helpu. |
| Pum cwestiwn allweddol i gyrff llywodraethu er mwyn helpu i herio eu hysgolion a'u colegau i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol | Nod y canllaw hwn yw helpu cyrff llywodraethu ysgolion a cholegau Cymru i gyflawni eu dyletswyddau diogelu. Mae hyn yn cynnwys helpu ysgolion i ddarparu amgylchedd diogel, cyfrifol a chefnogol i ddysgu ynddo, ac atal mynediad at gynnwys amhriodol neu niweidiol. |
| Herio bwlio: Hawliau, parch, cydraddoldeb – Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir | Mae'r rhestr chwarae adnoddau hon yn ategu ein canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir o fewn cyfres o ganllawiau gwrth-fwlio 'Herio bwlio: Hawliau, parch a chydraddoldeb' Llywodraeth Cymru. |

# HYFFORDDIANT ALLANOL DEWISOL AR GAEL

Cafodd y casgliad o Gyrsiau Agored ar gyfer llywodraethwyr ysgol yng Nghymru ei ddatblygu gan y Brifysgol Agored yng Nghymru.

Cliciwch ar Enw'r Modiwl i fynd i'r dudalen gwe berthnasol.

| ENW'R MODIWL | DISGRIFIAD |
|---|---|
| Cyflwyniad i Arweinyddiaeth ar gyfer llywodraethwyr ysgol. Cyflwyniad Lefel 1 | Mae'r cwrs hwn yn darparu cyflwyniad cryno i faes arweinyddiaeth addysgol. Mae'n archwilio'r perthnasau rhwng arweinyddiaeth a rheoli a, o sail tystiolaeth Arolygiaeth Cymru, yn amlinellu rhai nodweddion a ddangosir gan arweinwyr da. |
| Gwaith Tîm: cyflwyniad ar gyfer llywodraethwyr ysgol. Cyflwyniad Lefel 1 | Mae gwaith tîm yn chwarae rôl bwysig a hanfodol i ddatblygu a chynnal corff llywodraethu llwyddiannus. Mae'r cwrs hwn yn darparu cyfle i chi adlewyrchu ar ein profiadau gwaith tîm eich hun, archwilio esiamplau o waith tîm mewn ysgolion ac i adlewyrchu ar bwysigrwydd gwaith tîm ac arweinyddiaeth i adeiladu timoedd llwyddiannus. Byddwch yn archwilio perthnasedd gwaith tîm i'ch profiad fel llywodraethwr a'i swyddogaeth o fewn eich corff llywodraethu eich hun. |
| Addysg Gynhwysol: beth ydym yn ei olygu. Cyflwyniad Lefel 1 | Waeth beth yw'r math o ysgol yr ydych ynddi, mae eu dull tuag at addysg gynhwysol yn ffactor sy'n penderfynu diwylliant yr amgylchedd ddysgu ac addysgu. Dros yr oriau nesaf, byddwch yn cael eich cyflwyno i rai o'r egwyddorion a dadleuon a fydd yn llywio safbwynt eich ysgol tuag at gynhwysiant. Byddwch yn edrych ar wahanol safbwyntiau tuag at gynhwysiant, yn arbennig y ffordd mae modelau meddygol a chymdeithasol wedi dylanwadu a siapio'r feddylfryd gyfredol. Byddwch hefyd yn ystyried y rhwystrau i gynhwysiant a'r gwahaniaeth rhwng integreiddio a chynnwys. Yn ogystal â hynny, byddwch yn ystyried rhai dogfennau allweddol, megis *Datganiad Salamanca* a'r *Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol*, sy'n tanategu'r feddylfryd gyfredol yn y maes hwn. |

Hwb yw llwyfan ddigidol Llywodraeth Cymru sydd â chasgliad cynhwysfawr o adnoddau digidol i gefnogi addysg. Maent yn cynnig cymwysiadau Office 365 a Google Suite i lywodraethwyr gyfathrebu a chydweithio a datblygu adnoddau ar gyfer llywodraethwyr.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn argymell y llwyfan ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion gan ei fod yn sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau GDPR drwy gyfathrebu a chadw dogfennau a chofnodion y corff llywodraethu yn ddiogel.

Os yw eich corff llywodraethu angen cymorth i sefydlu Tîm Corff Llywodraethu ar y llwyfan Hwb, cysylltwch â Gwasanaethau Cefnogi Llywodraethwyr i gael rhagor o wybodaeth ar governorsupport@wrexham.gov.uk <mailto:governorsupport@wrexham.gov.uk>.

**DISGRIFIADAU O'R CYRSIAU**

| | |
|---|---|
| **Hyfforddiant Ymsefydlu Llywodraethwyr** | Bydd y sesiwn yn darparu gwybodaeth ar:-<br>• Y gwahanol fathau o lywodraethwyr<br>• Rôl y Cadeirydd a'r Clerc<br>• Rolau a chyfrifoldebau allweddol y cyrff llywodraethu<br>• Beth yw'r rôl strategol<br>• Beth yw'r rolau monitro a gwerthuso<br>• Sut i fod yn llywodraethwr effeithiol<br>• Beth yw corff llywodraethu effeithiol a rôl y llywodraethwr wrth wella ysgol<br>• Lle i gael mynediad at ragor o wybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant |
| **Deall Data Ysgol** | Bydd y sesiwn yn darparu gwybodaeth ar:-<br>• Pam fod angen data<br>• Y mathau o ddata sydd ar gael i lywodraethwyr<br>• Sut a phryd y darperir data i ysgolion<br>• Deall data i wneud gwelliannau<br>• Sut caiff perfformiad ei asesu<br>• Presenoldeb<br>• Teuluoedd o ddata ysgolion<br>• Categoreiddio ysgolion<br>• Y mathau o gwestiynau dylai llywodraethwyr ofyn am ddata perfformiad a phresenoldeb<br>• Ffynonellau o gyngor a chymorth |

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd y Llywodraethwyr** | Bydd y sesiwn yn ymdrin â:-<br>• Rolau a chyfrifoldebau allweddol y cyrff llywodraethu<br>• Rôl a sgiliau'r Cadeirydd<br>• Perthnasau allweddol – gweithio gyda'r pennaeth, clerc a budd-ddeiliaid<br>• Sut i fod yn Gadeirydd effeithiol<br>• Dyletswyddau statudol eraill y Cadeirydd<br>• Lle i gael mynediad at ragor o wybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant |
| **Rheoli Perfformiad y Pennaeth** | Dyluniwyd y sesiwn i gefnogi llywodraethwyr yn eu cyfrifoldeb adolygu a chytuno ar amcanion rheoli perfformiad gyda'r Pennaeth.<br>Bydd y sesiwn yn ymdrin â:<br>• Rôl y Pwyllgor Rheoli Perfformiad Pennaeth<br>• Proses adolygu perfformiad Pennaeth<br>• Cyfraniad a rôl yr ymgynghorydd allanol<br>• Sut i osod amcanion rheoli perfformiad yn effeithiol<br>• Rôl llywodraethwyr i fonitro cynnydd cyflawni'r amcanion<br>• Rôl rheoli perfformiad yng nghyd-destun ehangach gwella'r ysgol<br><br>**Hwylusydd:** GWE / Yr Awdurdod Lleol<br>**Cynulleidfa darged:** Pwyllgor Rheoli Perfformiad Pennaeth.<br>Holl lywodraethwyr/clercod sydd â diddordeb |
| **Deall Cyllidebau Ysgol a Rheolaeth Ariannol** | Mae'n hanfodol bod Corff Llywodraethu'r Ysgol yn rheoli cyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn gywir er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu ei gyfrifoldebau ariannol yn effeithiol ac mor effeithlon â phosibl. Y testunau a gynhwysir yn ystod y sesiwn yw:<br>• Sut mae'r Awdurdod Lleol yn cael ei ariannu;<br>• Sut caiff cyllideb gyffredinol yr ysgol ei benderfynu;<br>• Fformiwla dyrannu adnoddau'r awdurdod ar gyfer cyllidebau ysgolion unigol;<br>• Cynllunio cyllideb ysgol;<br>• Rheolaeth ariannol a monitro cyllideb ysgol;<br>• Manylion o'r gwasanaeth cefnogi a ddarperir i ysgolion.<br><br>**Hwylusydd:** Ian Roberts, Prif Swyddog Cyllid<br>**Cynulleidfa darged:** Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid, Penaethiaid.<br>Holl lywodraethwyr sydd â diddordeb |
| **Cyllideb Llym – Ar gyfer Ysgolion sy'n Wynebu Anawsterau Ariannol** | Bydd y cwrs hwn yn cynnwys y broses i Ysgolion mewn/neu sy'n wynebu anhawster ariannol<br>Bydd yr eitemau o dan y testun hwn yn cynnwys:<br>• Cynllunio ar gyfer cyllideb y dyfodol<br>• Ceisiadau diffyg ariannol trwyddedig<br>• Paratoi cynllun adfer ysgol<br>• Y broses gwneud cais, gan gynnwys cymeradwyo neu wrthod<br>• Y broses monitro<br>• Y broses cefnogi a her ar gyfer ysgolion mewn diffyg<br>• Cyfrifoldebau llywodraethwyr<br><br>**Hwylusydd:** Ian Roberts, Prif Swyddog Cyllid<br>**Cynulleidfa darged:** Aelodau o'r Pwyllgor Cyllid, Penaethiaid.<br>Holl lywodraethwyr/clercod sydd â diddordeb |

## Hysbysiad Preifatrwydd

I gael gwybodaeth am sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ymdrin â data personol, darllenwch ein Hysbysiadau Preifatrwydd ar ein gwefan: www.wrexham.gov.uk

## Canslo

Gan ein bod ni'n dibynnu ar swyddogion i gynnal y sesiynau hyfforddi, gofynnwn yn garedig i chi roi eich cefnogaeth. Mae angen isafswm o fynychwyr i wneud y cwrs yn gost effeithiol. Os oes llai na 10 wedi cofrestru ar gyfer sesiwn hyfforddi, byddwn yn ystyried canslo'r sesiwn. Os yw cyrsiau yn cael eu canslo, ymdrechir i roi hysbysiad digonol i bawb sydd wedi archebu lle.
Gwerthfawrogwn eich bod yn rhoi eich amser i fynychu cyrsiau a chydnabyddwn y gall amgylchiadau eich rhwystro rhag mynychu ar ôl i chi archebu lle, Ystyriwch y gost ar gyfer darparu'r cyrsiau hyn a gwnewch pob ymdrech i roi gwybod i'r swyddfa os nad allwch fynychu er mwyn sicrhau nad yw arian ac adnoddau'n cael eu gwastraffu.

## Gwerthusiad

Defnyddir y ffurflenni gwerthuso ar ôl hyfforddiant i fesur effeithiolrwydd bob sesiwn. Felly gofynnir i bob cyfranogwyr gwblhau'r ffurflen werthuso ar ddiwedd bob sesiwn.